Tŷ Afon, Ffordd Bedwas
Bedwas, Caerffili,
CF83 8WT
029 2085 9696

Tŷ Afon, Bedwas Road
Bedwas, Caerphilly
CF83 8WT
www.hefcw.ac.uk

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

# Cylchlythyr | Circular

# Canlyniadau'r ymgynghoriad ar drefniadau cyllido cyhoeddiadau Astudiaethau Cymru

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 07 Mehefin 2022 |
| **Cyfeirnod:** | W22/15HE |
| **At:** | Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru |
| **Ymateb erbyn:** | Dim angen ymateb |
| **Cyswllt** | Clare Davies<br>clare.davies@hefcw.ac.uk |

Mae'r cylchlythyr hwn yn rhoi canlyniadau'r ymgynghoriad ar W21/37HE: Ymgynghoriad ar drefniadau cyllido cyhoeddiadau Astudiaethau Cymru, ynghyd â diweddariad o'r trefniadau cyllido.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch mewn fformat hygyrch arall, anfonwch e-bost i info@hefcw.ac.uk.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg | We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi | Corresponding in Welsh will not lead to delays
This document is also available in English | Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

## Y Cefndir

1. Ers 1998 mae CCAUC wedi cefnogi cyhoeddi llyfrau'n gysylltiedig ag Astudiaethau Cymru gan Wasg Prifysgol Cymru (GPC). Cyflwynwyd y gronfa gyhoeddiadau hon, a delir yn uniongyrchol i GPC, er mwyn rhoi cefnogaeth i gyhoeddi 15 o gyhoeddiadau bob blwyddyn ym maes Astudiaethau Cymru (maes eang sy'n cynnwys astudio llenyddiaeth Cymraeg a Saesneg, hanes, gwleidyddiaeth a gwyddorau cymdeithasol Cymru, ymhlith disgyblaethau eraill)

2. Yn 2011, cafodd y gronfa ei hailgyfeirio i Sefydliadau Addysg Uwch (SAUau) unigol yng Nghymru. Dyrannwyd 50% o'r cyllid yn gymesur â dyraniadau Ymchwil Cysylltiedig ag Ansawdd y sefydliadau yn 2010/11, a 50% yn gymesur â nifer y cyhoeddiadau a gefnogwyd ym mhob sefydliad o gronfa gyhoeddiadau CCAUC dros y tair blynedd blaenorol. Neilltuwyd y cyllid hwn o fewn Ymchwil Cysylltiedig ag Ansawdd i gefnogi cyhoeddiadau ysgolheigaidd a gweithgareddau cysylltiedig ym maes diwylliant, hanes a llenyddiaeth Cymru. Mae sefydliadau wedi cael gwybod yn unigol pa symiau a neilltuwyd ar eu cyfer o fewn eu dyraniadau yn y modd hwn.

3. Mae'r gronfa ei hun wedi aros yn sefydlog ar £132k y flwyddyn ers 2011. Mae'r dyraniadau wedi'u nodi yn y tabl isod:

| **Sefydliad** | **Dyraniad** |
|---|---|
| Aberystwyth | £16,400 |
| Bangor | £16,500 |
| Caerdydd | £42,000 |
| Abertawe | £28,400 |
| PDC | £19,800 |
| Y Drindod Dewi Sant | £8,900[1] |
| **Cyfanswm** | **£132,000** |

4. Yng nghyd-destun adolygiad CCAUC o'i fethodoleg ar gyfer cyllido ymchwil, cymeradwyodd CCAUC ym mis Tachwedd 2020 fod angen mynd ar drywydd trefniadau cyllido gwahanol ar gyfer cyhoeddiadau Astudiaethau Cymru. Ar ôl casglu gwybodaeth gychwynnol yn dilyn ymgysylltu â GPC a'r sector, agorwyd ymgynghoriad a gynigiai ddull gwahanol o gyllido ym mis Tachwedd 2021, a daeth ymatebion i law erbyn diwedd mis Ionawr 2022.

5. Cynigiai'r ymgynghoriad (cylchlythyr W21/37HE) y dylid dychwelyd y cyllid ar gyfer cyhoeddiadau Astudiaethau Cymru i'w reoli gan GPC, gyda goruchwyliaeth a gwaith monitro ychwanegol gan CCAUC. Byddai hyn yn caniatáu mwy o sicrwydd ynghylch sut mae'r arian yn cael ei ddefnyddio gan y sector er mwyn datblygu Astudiaethau Cymru. Byddai hyn hefyd yn sicrhau cystadleuaeth deg am gyllid ymhlith prifysgolion. Yn ôl gwybodaeth a gasglwyd gan CCAUC drwy waith ymgysylltu anffurfiol, mae sefydliadau wedi gwario'r dyraniadau hyn yn bennaf ar gyhoeddi llyfrau, ond yn achlysurol maent wedi gwario'r dyraniadau ar weithgareddau eraill fel costau erthyglau mewn cyfnodolion, mynychu

[1]Yn cynnwys £2,200 a ddyrannwyd i'r Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd.

cynadleddau a digwyddiadau cysylltiedig. Er hynny, ni fu unrhyw broses fonitro bwrpasol ar gyfer y gronfa gyhoeddiadau, gan ei bod wedi'i chynnwys yn rhan o Ymchwil Cysylltiedig ag Ansawdd.

6. Gwnaethom gynnig y dylai panel arbenigol ddyrannu cyllid ar gyfer cyhoeddiadau. Byddai'r panel yn cynnwys cynrychiolwyr o'r maes Astudiaethau Cymru, yn ogystal â rhanddeiliaid fel Cymdeithas Ddysgedig Cymru. Gwnaethom awgrymu hefyd y byddai'n rhaid i'r awdur fod â chysylltiadau â SAU yng Nghymru er mwyn bod yn gymwys i dderbyn cyllid. Yn olaf, cynigiom na ddylai'r cyllid ond mynd tuag at gostau cyhoeddiadau.

7. Cafwyd cyfanswm o 18 o ymatebion: 7 gan sefydliad, 6 gan unigolyn, 2 gan adran neu grŵp ymchwil, 1 gan gymdeithas pwnc/gymdeithas ddysgedig, 1 gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac ymateb gan GPC.

**Ymatebion i'r ymgynghoriad – dadansoddi a materion**

8. Ceir crynodeb byr isod o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, wedi'u trefnu fesul cwestiwn:
   - ***Safbwyntiau ynghylch ymagwedd CCAUC i ddychwelyd cyllid i GPC, a'r dull o ddyrannu cyllid drwy banel:*** Roedd yr ymatebion yn gefnogol i'r cynnig ar y cyfan, er bod nifer yn cynnig awgrymiadau ac amodau pellach i'w hystyried. Roedd dau ymatebwr yn anghytuno mai GPC a ddylai reoli'r cyllid. Dyma'r prif bryderon a godwyd:
     - Y posibilrwydd y gallai Gwasg Prifysgol Cymru fonopoleiddio Astudiaethau Cymru
     - Natur draddodiadol yr allbwn nodweddiadol a gyhoeddir gan GPC.
     - Aelodaeth a rôl y panel
     - Cefnogaeth ar gyfer cyhoeddiadau cyfrwng Cymraeg mewn meysydd y tu hwnt i Astudiaethau Cymru
     - Y ffaith mai Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (drwy Brifysgol Cymru) sy'n berchen ar GPC
   - ***Ariannu GPC a'r canlyniadau anfwriadol:*** Nododd ymatebwyr y gallai darparu'r cyllid i un cyhoeddwr yn unig arwain at ddiffyg dewis o ran awduron, a nododd amryw o ymatebwyr na fyddai cyhoeddwyr eraill yn gallu cystadlu, Fodd bynnag, nododd y rhan fwyaf ohonynt mai GPC yw'r cyhoeddwr amlycaf ym maes Astudiaethau Cymru, a'i bod eisoes yn derbyn y rhan fwyaf o'r cyllid o gymharu â chyhoeddwyr eraill.
   - ***A yw'r cynnig yn cefnogi Astudiaethau Cymru a hyfywedd GPC am y tymor hir:*** Roedd mwyafrif yr ymatebwyr yn cytuno bod y cynnig yn cyflawni'r naill nod a'r llall, ac yn rhoi cymeradwyaeth gref i'r dull hwnnw. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn awyddus i weld cefnogaeth i sicrhau hyfywedd y Wasg am y tymor hir. Ystyriai rhai fod dull GPC o gyhoeddi yn draddodiadol, gan feirniadu hynny, a nododd eraill fod angen i GPC fod yn eglur ynghylch ei hymrwymiadau o ran Mynediad Agored.
   - ***Cymhwystra i dderbyn cyllid drwy gysylltiad â SAU yng Nghymru***: Mynegwyd safbwyntiau cymysg wrth ymgynghori ar hyn. Cyfeiriodd llawer o ymatebwyr at y ffaith bod llawer o ysgolheigion Astudiaethau Cymru heb eu

lleoli yng Nghymru, a byddai eithrio'r rheiny o allu derbyn y cyllid hwn yn amharu ar ddatblygiad y maes. Nododd ymatebwyr eraill mai cylch gwaith CCAUC yw cefnogi addysg uwch yng Nghymru ac, yn sgil hynny, *ymchwilwyr yng Nghymru*. Roedd amryw o ymatebwyr yn pryderu y gallai hyn hefyd atal ymchwilwyr cynnar yn eu gyrfa nad ydynt mewn swydd mewn SAU yng Nghymru rhag cyhoeddi eu monograff cyntaf.

- ***Defnyddio cyllid ar gyfer cyhoeddiadau yn unig:*** Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o blaid y dull hwn, gan gydnabod bod y gronfa'n fach a bod ei neilltuo ar gyfer cyhoeddiadau'n sicrhau eglurder. Roedd amryw o'r ymatebwyr yn cydnabod bod ffrydiau ariannu eraill dilys y gellid eu defnyddio ar gyfer cynadleddau ac ati., fel cronfeydd mewnol SAUau.
- ***Modelau amgen:*** Roedd ambell ymatebwr yn cynnig modelau amgen, ond cytunai'r rhan fwyaf ohonynt eu bod yn ffafrio cynnig CCAUC.
- ***Lefel y cyllid:*** Roedd gofynion ynghylch Mynediad Agored yn bryder a oedd yn codi dro ar ôl tro, gyda'r ymatebwyr yn nodi'r angen i gefnogi gofynion Mynediad Agored Aur. Nododd yr Ymatebwyr hefyd y cynnydd mewn costau cyhoeddi ers 2011, a'r prinder cyllid cyffredinol ar gyfer y celfyddydau a'r dyniaethau, yn ogystal â'r angen i gefnogi cyhoeddiadau yn Gymraeg.
- ***Dyma bryderon eraill a godwyd ar draws yr ymatebion:*** yr angen i ddiffinio Astudiaethau Cymru ; yr angen i gefnogi allbwn Cymraeg; yr angen i sicrhau cyllid am y tymor hir; y posibilrwydd o aros am ganlyniadau REF2921 cyn ymrwymo'n derfynol; a'r angen i ystyried gwerth am arian***.***

9. Ceir crynodeb manylach o'r ymatebion yn **Atodiad A**.

## Y dull terfynol

10. Ar sail yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, mae CCAUC yn bwriadu parhau â'r cynnig fel y'i cyflwynwyd, yn amodol fân addasiadau a ddisgrifir isod.

11. ***Cyllid i'w ddarparu i GPC drwy Brifysgol y Drindod Dewi Sant, i'w reoli gan GPC:*** er ein bod yn cydnabod y pryderon a godwyd gan ymatebwyr ynghylch y posibilrwydd y bydd GPC yn monopoleiddio maes Astudiaethau Cymru, GPC yw'r prif gyhoeddwr yn y maes hwn o hyd, ac nid yw'r sgiliau, y profiad na'r ymrwymiad sydd ganddo i gyhoeddi Astudiaethau Cymru, i'w cael gan unrhyw gyhoeddwr arall oddi mewn nac oddi allan i Gymru. Bydd y cyllid yn cael ei ddarparu i PCYDDS yn rhinwedd ei statws fel sefydliad a reoleiddir gan CCAUC i roi sicrwydd pellach. Er tryloywder, byddwn yn ei gwneud yn ofynnol i PCYDDS gyhoeddi adroddiad blynyddol i esbonio sut y cafodd yr arian ei ddefnyddio, a bydd CCAUC yn monitro hynny. Bydd rôl y panel, gyda chadeirydd annibynnol a chynrychiolwyr o bob sefydliad, hefyd yn cyfrannu at dryloywder a thegwch.

12. ***Panel i benderfynu ynghylch sut i ddyrannu cyllid****:* bydd y panel yn ystyried cynigion ar y cam rhag-gyhoeddi fel y cynigiwyd yn wreiddiol, ond defnyddir y mecanwaith adrodd blynyddol i fonitro ansawdd a'r defnydd o gyllid. Er y gallai fod

yn fuddiol cael dau banel ar gyfer cyhoeddiadau yn Gymraeg ac yn Saesneg, byddai hyn yn creu baich ychwanegol. Argymhellir felly y dylai’r Panel gynnwys:

- Cynrychiolydd o Gymdeithas Ddysgedig Cymru (a fydd yn gweithredu fel Cadeirydd)
- Cynrychiolydd o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Cynrychiolydd enwebedig o bob SAU yng Nghymru i sicrhau cynrychiolaeth deg
- Sylwedydd o CCAUC a staff o GPC.

13. ***I fod yn gymwys i dderbyn cyllid bydd angen bod yn gysylltiedig â SAU yng Nghymru:*** er ein bod yn cydnabod y pryderon a godwyd gan yr ymatebwyr, y dylai'r cyllid fod ar agor i ymchwilwyr y tu hwnt i Gymru, cylch gwaith CCAUC yw cefnogi addysg uwch ac ymchwilwyr yng Nghymru. Bydd y cyllid felly'n cael ei ddarparu i ymchwilwyr yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys Ymchwilwyr Cynnar yn eu Gyrfa a gyflawnodd eu hymchwil mewn SAU yng Nghymru, ond nad ydynt o bosib yn cael eu cyflogi gan SAU yng Nghymru ar hyn o bryd. Bydd CCAUC yn cyhoeddi meini prawf cymhwystra cyn dosbarthu cyllid.

14. ***Natur yr allbwn cymwys:*** er mai'r prif nod fyddai cyhoeddi llyfrau, gallai'r panel benderfynu cefnogi erthyglau mewn cyfnodolion a gyhoeddir gan GPC yn ôl ei doethineb, gan fod y rhain hefyd yn bwysig i faes Astudiaethau Cymru . Bwriedir defnyddio'r cyllid ar gyfer cyhoeddiadau sy'n gysylltiedig ag Astudiaethau Cymru, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Fodd bynnag, ni fwriedir defnyddio'r cyllid hwn i gefnogi allbwn cyfrwng Cymraeg mewn meysydd nad ydynt yn gysylltiedig ag Astudiaethau Cymru . Bydd y cyllid wedi'i gyfyngu i gyhoeddiadau yn unig.

15. ***Lefel y cyllid a gofynion Mynediad Agored:*** Wrth roi'r system newydd ar waith yn y flwyddyn gyntaf, bydd lefel gyfredol y cyllid yn cael ei chynnal yn amodol ar adolygiad yn y dyfodol ar sail y galw a gafwyd. Byddwn hefyd yn annog GPC yn gryf i ystyried gofynion Mynediad Agored ar gyfer pob cyhoeddiad, ac yn adolygu llwyddiant y dull hwn yn flynyddol, ar y cyd â'r adolygiad o lefel y cyllid.

16. ***Diffinio Astudiaethau Cymru:*** Bydd CCAUC yn mabwysiadu diffiniad Cymdeithas Ddysgedig Cymru o Astudiaethau Cymru yn gysylltiedig â'r gronfa hon[2].

---

[2] *Mae Astudiaethau Cymru yn cwmpasu pob maes ymholi sy'n archwilio nodweddion diwylliannol, cymdeithasol a ffisegol Cymru, yn ehangder llawn cyd-destunau cenedlaethol a rhyngwladol Cymru. Mae'n cynnwys ymchwil am Gymru, i Gymru...mae Astudiaethau Cymru yn cynnwys meysydd traddodiadol fel hanes, gwleidyddiaeth, y Gymraeg, cymdeithaseg a llenyddiaeth, a hefyd yn cynnwys meysydd perthnasol o'r gwyddorau, archeoleg, iechyd, addysg, technoleg, y celfyddydau, cerddoriaeth ac amgylcheddau naturiol.*

## Y camau nesaf a'r amserlen

17. Bydd y cyllid hwn yn dechrau o flwyddyn academaidd 2022/23. Bydd CCAUC yn gweithio gyda sefydliadau, GPC a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu meini prawf cymhwystra a sefydlu'r panel erbyn mis Medi 2022.

## Rhagor o wybodaeth

18. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Clare Davies (clare.davies@hefcw.ac.uk).

## Asesu effaith ein polisïau

19. Rydym wedi cynnal ymarfer sgrinio asesu effaith er mwyn helpu i ddiogelu rhag gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb. Buom hefyd yn ystyried effaith y polisïau ar y Gymraeg, a darpariaeth Gymraeg yn sector AU Cymru, a'r effeithiau posibl ar y nodau a geir yn Nedd Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys ein Hamcanion Llesiant. Cysylltwch ag equality@hefcw.ac.uk am ragor o wybodaeth am asesiadau effaith.

20. Dylai'r cyllid hwn gael effaith gadarnhaol ar sawl nod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a Chymru sy'n fwy cyfartal. Bydd y polisi hefyd yn cael effaith gadarnhaol o ran peidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg.

**Atodiad A**

| Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar drefniadau cyllido cyhoeddiadau Astudiaethau Cymru |
|---|

## Cyflwyniad

1. Rhoddir crynodeb o'r ymatebion i bob cwestiwn isod ynghyd â sylwadau ac ymateb CCAUC. Er ein bod wedi ymdrechu i gasglu cynifer o faterion a phryderon a godwyd ym mhob ymateb ag sy'n bosibl, sylwch fod rhai wedi'u symleiddio a'u crynhoi gan fod amrywiaeth mor fawr o faterion wedi'u codi.

| **C1. Mae CCAUC yn cynnig bod cyllid yn cael ei reoli gan Wasg Prifysgol Cymru (GPC); byddai ymchwilwyr yng Nghymru yn gwneud cais yn uniongyrchol i'r Wasg am gyllid. Awgrymir y gellid dyrannu'r cyllid ar gyfer cyhoeddiadau drwy ddefnyddio panel o arbenigwyr, a allai gynnwys cynrychiolaeth o'r Wasg, arbenigwyr ym maes Astudiaethau Cymru a rhanddeiliaid perthnasol eraill (fel Cymdeithas Ddysgedig Cymru). Beth yw eich barn am y dull hwn? Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor o ddychwelyd cyllid i'r Wasg? Ydych chi'n cytuno y byddai dull Panel yn ffordd defnyddiol o asesu ceisiadau am gyllid?** |
|---|
| *Roedd cefnogaeth eang i'r cynnig yn gyffredinol, gyda'r rhan fwyaf o'r sylwadau a gyflwynwyd o blaid dychwelyd y cyllid i GPC. Er hynny, roedd amryw yn codi pryderon ac amodau posibl i'w hystyried gan CCAUC. Ymdrinnir â'r rhain yn fanylach isod. O blith yr ymatebion a godai broblemau posibl, roedd dau ymatebwr yn anghytuno â'r cynnig y dylai GPC reoli'r cyllid.*<br><br>*Roedd bron bob ymateb yn cytuno â'r dull panel, er bod awgrymiadau wedi'u codi yma ynghylch ei gyfansoddiad posibl, ac a ddylid ei gynnal cyn cyhoeddi (er mwyn dyrannu cyllid) ynteu ar ôl cyhoeddi (i adolygu'r allbwn). Nododd llawer o ymatebwyr fod angen ymdriniaeth ddigonol â'r Gymraeg, ac awgrymwyd y dylid cynnwys y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, yn ogystal â Chymdeithas Ddysgedig Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru, er mwyn sicrhau ymdriniaeth dda. Fodd bynnag, nododd ymatebwyr hefyd fod angen i banel o'r fath fod yn gynrychioliadol ac yn arbenigol, a bod angen sicrhau bod sefydliadau'n cael eu cynnwys.*<br><br>*Yn hytrach na chael panel i ddyrannu cyllid cyn cyhoeddi, a allai arafu'r broses, awgrymodd ambell ymatebwr y gallai panel gyfarfod i werthuso ansawdd ar ôl cyhoeddi.*<br><br>*Mynegwyd pryderon y gallai GPC fonopoleiddio Astudiaethau Cymru ar draul gweisg academaidd eraill, ac yn enwedig cyhoeddwyd eraill yng Nghymru, ac roedd ymatebwyr a gefnogai'r cais hyd yn oed yn nodi y gallai hyn fod yn broblem. Fodd bynnag, nododd amryw o ymatebwyr mai GPC yw'r prif gyhoeddwr yn y maes hwn, a bod sefydlogrwydd GPC yn hanfodol er mwyn cefnogi Astudiaethau Cymru. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch pa mor agos yw GPC i Brifysgol Cymru/Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, gan ei bod yn is-gorff i Brifysgol Cymru; ystyriwyd bod hyn yn rhoi mantais annheg i un sefydliad ar draul eraill.* |

**Atodiad A**

| |
|---|
| *Nodwyd hefyd bod y dull cyllido blaenorol wedi galluogi sefydliadau i gefnogi allbwn nad yw o reidrwydd o fewn cylch gwaith GPC, ac y gallai hyn effeithio ar gwmpas yr allbwn sydd ar gael i'w gyflwyno i ymarferion asesu ymchwil yn y dyfodol, ee, ym maes ysgrifennu creadigol. Er mai llyfrau academaidd oedd y prif gyhoeddiadau yr oedd y gronfa'n anelu i'w cefnogi, gellid hefyd gefnogi cyfnodolion/erthyglau cyfnodolion yn gysylltiedig ag Astudiaethau Cymru drwy GPC.*<br><br>*Pwysleisiai amryw o'r ymatebwyr fod angen rhoi mwy o gefnogaeth i ymchwil cyfrwng Cymraeg, ac nid oeddent yn teimlo y byddai'r cynnig yn cyflawni hynny. Codwyd hyn yng nghyd-destun ymchwil cyfrwng Cymraeg i bynciau nad oeddent yn berthnasol i Astudiaethau Cymru. Teimlwyd hefyd bod ymagwedd GPC at gyhoeddi yn rhy draddodiadol (yn enwedig o ran Mynediad Agored), ac y byddai hynny'n amharu ar dwf Astudiaethau Cymru yn y dyfodol.* |
| *Ymateb CCAUC:*<br><br>*Er ein bod yn ymwybodol bod y dull hwn yn ffafrio rôl GPC wrth gyhoeddi ymchwil Astudiaethau Cymru, teimlwn fod cylch gorchwyl CCAUC i gefnogi AU yng Nghymru (y mae'r wasg academaidd yn rhan annatod ohoni) yn cyfiawnhau ein hymagwedd. Ar ben hynny, mae'r dull hwn yn sicrhau bod arian cyhoeddus Cymru yn aros yng Nghymru. Nid yw CCAUC yn gyfrifol am ffawd gweisg academaidd eraill y tu hwnt i Gymru, nac ychwaith am gefnogi diwydiant cyhoeddi Cymru yn ei gyfanrwydd, ond mae bodolaeth gwasg academaidd gref yng Nghymru'n elfen bwysig yn iechyd y sector AU. Mae dyrannu cyllid drwy sefydliad a reoleiddir ar ffurf PCYDDS yn rhoi sicrwydd ychwanegol, a byddwn yn gofyn am adroddiad blynyddol cyhoeddedig i ddangos sut y gwariwyd y cyllid.*<br><br>*Rydym yn cytuno y bydd sicrhau'r aelodau cywir ar y panel yn hanfodol er llwyddiant y cynllun, er mwyn sicrhau ansawdd y cyhoeddiadau a gefnogir ac er mwyn hwyluso tryloywder ynghylch penderfyniadau cyllido. Er bod llawer i'w ganmol ynghylch y dulliau cyn ac ar ôl cyhoeddi ar gyfer rôl y panel, y prif fater i CCAUC yw bod cyllid cyhoeddus yn cael ei ddyrannu mewn modd tryloyw a phriodol, a tharo'r cydbwysedd cywir o randdeiliaid ar y panel er mwyn cyflawni hynny.*<br><br>*Er ein bod yn cydnabod amrywiaeth y deunyddiau a oedd yn gymwys ar gyfer REF a allai fod wedi cael eu cefnogi yn y gorffennol, mae'r gronfa hon wedi'i thargedu at gyhoeddi astudiaethau ysgolheigaidd nad ydynt fel arfer yn denu cefnogaeth arall. Fodd bynnag, gallai hyn gynnwys erthyglau mewn cyfnodolion, ac rydym yn cynnig caniatáu hynny yn ôl doethineb y panel. Gall llyfrau eraill sy'n ymwneud ag Astudiaethau Cymru nad ydynt o fewn cwmpas cyhoeddiadau academaidd hefyd dderbyn cymorth o fannau eraill (byddai'r llyfrau hynny'n gymwys i dderbyn cyllid oddi wrth Gyngor Llyfrau Cymru, ac mae hynny'n digwydd yn aml), ond nid yw cefnogi datblygiad cyhoeddwyr eraill yn y modd hwn o fewn cylch gwaith CCAUC.*<br><br>*O'r cychwyn cyntaf, bwriadwyd i'r cyllid hwn gefnogi cyhoeddi ymchwil sy'n gysylltiedig â maes ymchwil eang Astudiaethau Cymru, yn Gymraeg ac yn Saesneg; nid yw hyn yn cynnwys, ac ni all gynnwys, ac ystyried pa mor fach yw swm y cyllid sydd ar gael, ymchwil cyfrwng Cymraeg yn gyffredinol nad yw'n* |

*gysylltiedig ag Astudiaethau Cymru. Gallai'r llyfrau hyn wneud cais dilys am gymorth ariannol o ffynonellau eraill, gan gynnwys Cyngor Llyfrau Cymru.*

**C2. Rydym yn ymwybodol nad GPC yw'r unig un sydd wedi derbyn y cyllid hwn yn y gorffennol. Ein cynnig yw y dylai GPC dderbyn y cyllid i reoli cyhoeddiadau Astudiaethau Cymru. A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn sgil hyn?**

*Yn yr adran hon, mynegodd ymatebwyr bryderon na fyddai cyllid ar gael mwyach i gyhoeddwyr eraill nac ar gyfer allbwn arall, ac y byddai hyn yn cyfyngu ar ddewis awduron. Teimlwyd y byddai'r dull hwn yn cyfyngu ar amrywiaeth yr allbwn ac felly'n niweidiol i'r maes, ac yn troi Astudiaethau Cymru yn 'faes niche gyda chyhoeddwr niche'. Awgrymwyd y dylai CCAUC ystyried y posibilrwydd o gyllido cyhoeddwyr eraill pe bai'r angen yn codi. Nodwyd hefyd y gallai hyn effeithio ar gytundebau ac ymrwymiadau cyfredol mewn meysydd nad yw GPC fel arfer yn cyhoeddi ynddynt, a gallai hynny wedyn gael effaith negyddol ar gyflwyniadau REF yn y dyfodol. Nododd eraill, er y byddai hyn yn cyfyngu ar gyfleoedd i ymgysylltu â chyhoeddwyr eraill, y gall Cyngor Llyfrau Cymru gefnogi mathau eraill o allbwn (fel ysgrifennu creadigol), er bod y sefydliad hwn (fel CCAUC) yn dibynnu ar gyllid Llywodraeth Cymru.*

*Fodd bynnag, nododd amryw o ymatebwyr mai GPC yw prif gyhoeddwr y maes, a'i bod hyd yma wedi derbyn y rhan fwyaf o'r cyllid drwy'r trefniant cyfredol. Gan hynny, roedd rhai'n teimlo mai bach fyddai'r effaith ar weisg eraill. Dadleuwyd hefyd fod y cynnig yn ffordd dda o sicrhau bod arian cyhoeddus yn aros yng Nghymru. Teimlai un sefydliad fod y canlyniadau anfwriadol yn sgil* ***peidio*** *dychwelyd y gronfa i GPC yn llawer mwy difrifol na'r canlyniadau anfwriadol yn sgil gwneud hynny. Yn wir, roedd eraill yn dadlau y dylid rhoi 'amddiffyniad arbennig' i GPC, fel yr unig wasg Prifysgol sydd wedi'i hymrwymo i Astudiaethau Cymru. Er gwaethaf y risg ganfyddedig fod Astudiaethau Cymru wedi'u cyfyngu i un cyhoeddwr yn unig, nodwyd bod gan GPC y profiad a'r arbenigedd i gyflawni, ac na fu'r gefnogaeth ar gyfer llyfrau Astudiaethau Cymru gan gyhoeddwyr eraill erioed yn gyson, gan nad oes ganddynt yr un lefel o ymrwymiad i'r maes (ond teimlwyd bod angen gwneud mwy i wella cyfleoedd Mynediad Agored).*

*Nodwyd hefyd y gallai achos o wrthdaro buddiannau godi, gan fod GPC yn is-gorff i Brifysgol Cymru, ond dywedwyd bod rôl y Panel yn fodd i sicrhau tryloywder a thegwch.*

**Atodiad A**

| |
|---|
| *Ymateb CCAUC:*<br><br>*Nid yw CCAUC yn gyfrifol am gyllido cyhoeddwyr; drwy gyllido Astudiaethau Cymru drwy GPC, mae CCAUC yn cyflawni ei gyfrifoldeb i gefnogi seilwaith AU Cymru drwy sicrhau gwasg academaidd sy'n ffynnu, ac yn cyfrannu at gefnogi iaith a diwylliant Cymru. Fel y prif gyhoeddwr yn y maes hwn, sydd â hanes o lwyddiant a mynediad at y farchnad, ymddengys mai Gwasg Prifysgol Cymru yw'r unig gyhoeddwr dilys a all dderbyn y cyllid hwn gan CCAUC. Mae ffynonellau cyllid eraill ar gael i gyhoeddwyr (fel Cyngor Llyfrau Cymru) ond nid yw cyllido cyhoeddwyr eraill yn gyson â chenhadaeth CCAUC i gefnogi addysg uwch yng Nghymru.* |

| **C3. Yn ogystal â'r angen i barhau i gefnogi Astudiaethau Cymru, nodwyd bod cefnogi hyfywedd GPC yn hanfodol bwysig i'r sector addysg uwch yng Nghymru. A yw'r dull cyllido a gynigir gan CCAUC yn llwyddo i gyflawni'r naill nod a'r llall?** |
|---|
| *Teimlai mwyafrif yr ymatebwyr fod y cynnig hwn yn cyflawni'r ddau nod o gefnogi GPC ac Astudiaethau Cymru. Fodd bynnag, teimlai llawer y dylai CCAUC fod yn llawer mwy uchelgeisiol o ran ei ofynion Mynediad Agored a'i gyllid i gyflawni'r nodau hyn. Cydnabuwyd y byddai hyn yn heriol ac y byddai angen mwy o gyllid ar gyfer hyn, ond dywedwyd hefyd y byddai Mynediad Agored yn bwysig er mwyn sicrhau llwyddiant y Wasg yn y dyfodol. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn awyddus iawn i weld cefnogaeth i sicrhau hyfywedd y Wasg am y tymor hir.*<br><br>*Fodd bynnag, teimlai rhai fod ymchwil Astudiaethau Cymru yn bodoli y tu hwnt i gylch gwaith GPC, ac y byddai cefnogi GPC yn unig yn amharu ar ddatblygiad yn y maes. Nid oedd un ymatebwr wedi'i argyhoeddi bod angen cefnogi GPC, a dadleuodd fod cryn newid wedi bod yn y byd cyhoeddi academaidd ers cyhoeddi adolygiadau Diamond a Hughes. Roedd pryder hefyd ynghylch y ffaith bod ffawd Astudiaethau Cymru wedi'i gysylltu mor agos â ffawd GPC, a theimlad nad cefnogi GPC oedd y ffordd orau o gefnogi Astudiaethau Cymru.*<br><br>*Roedd amryw o ymatebwyr yn pryderu ynghylch y ffaith nad oedd y cynnig yn rhoi cefnogaeth amlwg ar gyfer cyhoeddiadau cyfrwng Cymraeg (fel agwedd ar wahân i Astudiaethau Cymru).*<br><br>*Nodwyd y byddai'r dull a gynigiwyd yn sicrhau bod GPC yn cryfhau ac yn datblygu ymhellach, a bod yr astudiaethau a gynhyrchir gan GPC yn cael eu hystyried yn astudiaethau wedi'u cyhoeddi gan gwmni uchel ei fri. Nodwyd er hynny fod Astudiaethau Cymru a GPC yn fregus, a bod peryg o ddefnyddio'r naill i gynnal y llall. Nododd ymatebwyr hefyd nad yw'r cynnig hwn yn ddigonol i ddiogelu GPC i'r dyfodol ac, o gymharu â gweisg eraill yn Lloegr, y byddai'n dal i fod wedi'i thangyllido.*<br><br>*Nododd sawl ymatebwr y byddai cefnogi GPC yn cael effaith gadarnhaol ar ddiwylliant Cymru*gan ei bod yn ei helpu i Gymru gael ei gweld fel cenedl o gyhoeddiadau academaidd o safon uchel. *Hefyd, ac ystyried hanes GPC a'i rôl yn sector AU Cymru, roedd y cynnig yn gam pwysig i'w diogelu. Nododd un ymatebwr* |

*hefyd fod cefnogi'r Wasg yn hollbwysig i fywyd diwylliannol Cymru yn ei gyfanrwydd.*

*Ymateb CCAUC:*

*Nodwn fod mwyafrif yr ymatebwyr yn ystyried GPC yn rhan annatod o sector addysg uwch Cymru, a'i bod yn gwneud cyfraniad pwysig at ddiwylliant Cymru. Nodwn fod llawer am weld GPC yn cael ei chryfhau a'i chefnogi, a'u bod yn teimlo y byddai'r dull hwn o gymorth i gyflawni hynny. Rydym yn cydnabod yn llawn yr angen i ddatblygu GPC o ran Mynediad Agored a byddwn yn monitro perfformiad GPC yn gysylltiedig â hyn ym mlynyddoedd cyntaf y trefniant cyllido newydd hwn, ac ochr yn ochr ag adolygiadau o lefel y cyllid.*

*Er ei bod yn wir nad GPC yw unig gyhoeddwr allbwn Astudiaethau Cymru, mae ymatebwyr yn cefnogi'r farn mai dyma'r wasg sydd yn fwyaf cyson yn y maes hwn. Bydd y cyllid ar agor i waith a gyhoeddir yn Gymraeg ac yn Saesneg ym maes Astudiaethau Cymru, heb drin yr un iaith yn llai ffafriol na'r llall. Fodd bynnag, cyllid ar gyfer ymchwil Astudiaethau Cymru yw hwn, yn hytrach nag ymchwil a gyhoeddir yn Gymraeg ym mhob maes, sy'n fater ar wahân.*

**C4. Er mwyn bod yn gymwys i dderbyn cyllid, awgrymir y byddai'n rhaid i'r awdur fod yn ymchwilydd o fewn, neu'n gysylltiedig â SAU yng Nghymru, A oes gan y dull hwn unrhyw fylchau na roddwyd sylw iddynt?**

*Er eu bod yn deall y sail resymegol dros gefnogi ymchwilwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, nododd llawer o ymatebwyr nid yn unig fod cyrhaeddiad y maes Astudiaethau Cymru yn rhyngwladol, ond bod y maes hefyd wedi'i alluogi drwy ysgoloriaeth ryngwladol. Nododd amryw o ymatebwyr mai ansawdd a pherthnasedd yr ymchwil oedd bwysicaf iddynt, yn hytrach na lleoliad yr awdur. Dadleuwyd y gallai'r Panel gadw golwg ar y cydbwysedd o ran cyfraniadau o'r tu allan i Gymru, ac roedd teimlad bod yr hyn sy'n cael ei gynnig gan CCAUC yn yr achos hwn yn rhy gaeth. Awgrymwyd y byddai cyfyngu ar gyllid i'r ymchwilwyr hynny sydd wedi'u lleoli yng Nghymru yn niweidio'r canfyddiad o Astudiaethau Cymru, ac yn atgyfnerthu'r syniad mai maes plwyfol neu ynysol ydyw. Roedd ymatebwyr yn annog y dylid bod mor gynhwysol ag sy'n bosibl, gyda'r posibilrwydd o ffenest gyllido ar gyfer ymgeiswyr allanol a chanllawiau i roi'r flaenoriaeth i ymchwilwyr wedi'u lleoli yng Nghymru mewn cylchoedd ymgeisio cystadleuol.*

*Fodd bynnag, roedd eraill yn cytuno â'r egwyddor o fod yn gysylltiedig â SAU yng Nghymru, ond yn pryderu bod 'cysylltiad' â SAU yng Nghymru yn rhy niwlog, gan ddadlau ei bod hi'n bosibl nad oedd ymchwilwyr ôl-ddoethurol a oedd wedi cwblhau eu hymchwil yng Nghymru o reidrwydd yn dal mewn cysylltiad â SAU yng Nghymru. Nododd amryw o ymatebwyr ei bod hi'n bwysig defnyddio'r cyllid hwn i gefnogi ymchwilwyr cynnar yn eu gyrfa; gan gyfeirio at y Concordat i Gefnogi Datblygiad Gyrfa Ymchwilwyr. Mynegwyd pryderon hefyd ynghylch cymhwystra athrawon Emeritws, ysgolheigion annibynnol ac ysgolheigion a oedd yn ymweld â SAUau Cymru.*

| |
|---|
| *Nododd un ymatebwr fod rheolau cyllido blaenorol CCAUC (cyn i'r gronfa gael ei rheoli gan sefydliad) yn cynnwys awduron nad oeddent yn gysylltiedig â SAUau yng Nghymru, ac awgrymodd y gellid cynnwys darpariaeth gyfyngedig o fewn y cyllid hwn ar gyfer ysgolheigion y tu allan i Gymru.*<br><br>*Nododd un ymatebwr fod cylch gwaith CCAUC fel cyngor cyllido ar gyfer Cymru o bosib yn cyfiawnhau'r dull a fabwysiadwyd, sef cefnogi ymchwilwyr yng Nghymru yn unig, ac awgrymwyd y byddai ymchwilwyr y tu hwnt i Gymru 'yn gallu manteisio ar yr holl ddulliau academaidd arferol eraill a oedd ar gael iddynt er mwyn sicrhau bod eu gwaith yn cael ei gyhoeddi'.*<br><br>*Awgrymwyd y dylai CCAUC gyhoeddi meini prawf clir i sicrhau tryloywder ac i sicrhau bod disgwyliadau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi'u bodloni.* |
| *Ymateb CCAUC:*<br><br>*Rydym yn gwerthfawrogi'r pryderon y gallai cyfyngu ar gymorth i ymchwilwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru effeithio ar ganfyddiadau rhyngwladol o Astudiaethau Cymru, ac ar ysgolheigion sydd wedi'u lleoli mewn sefydliadau y tu allan i Gymru. Teimlwn er hynny, gan mai swm bach o arian a ddyrennir i'r gronfa hon, ac oherwydd ein cylch gwaith fel cyngor cyllido ar gyfer Cymru, y dylai ein cyllid gefnogi ymchwilwyr sydd wedi'u lleoli yng Nghymru. Fodd bynnag, bydd hyn yn cynnwys y categorïau o ymchwilwyr ac ysgolheigion annibynnol o'r gymuned ECR, a gyflawnodd eu hymchwil yng Nghymru, waeth beth fo'u cysylltiadau ar y pryd â SAU yng Nghymru. Bydd y cyllid hefyd yn cefnogi Athrawon Emeritws o sefydliadau yng Nghymru sy'n gweithio o fewn y maes. Bydd CCAUC yn drafftio meini prawf cymhwystra i gefnogi'r agwedd hon ar y cynnig.* |

| **C5. Yn achlysurol mae'r cyllid wedi cael ei ddefnyddio i ddibenion eraill ar wahân i gyhoeddi, fel cefnogaeth ar gyfer cynadleddau a digwyddiadau'n gysylltiedig â'r llyfr a gyhoeddwyd Cynigiwn y dylid defnyddio'r cyllid ar gyfer cyhoeddiadau yn unig. A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn sgil y dull hwn?** |
|---|
| *Dywedodd amryw o'r ymatebwyr fod y cyllid wedi cael ei ddefnyddio i gefnogi gweithgareddau eraill pwysig fel cynadleddau; fodd bynnag, gan mai swm bach o arian a oedd ar gael, cytunai'r rhan fwyaf o ymatebwyr y dylid rhoi'r flaenoriaeth i gyllido cyhoeddiadau, fel bo modd cefnogi nifer fwy o gyhoeddiadau. Awgrymodd rhai y gellid neilltuo swm i gefnogi digwyddiadau eraill, tra awgrymodd eraill y gellid talu am y rhain o ffynhonnell arall, gan ddadlau nad oedd hi'n gynaliadwy i'r cyllid gynnal gwariant ar gyhoeddiadau yn ogystal â gwariant ar agweddau eraill.*<br><br>*Roedd un ymatebwr yn dadlau bod y trefniant cyllido cyfredol o gymorth i gefnogi ymrwymiad y sefydliad i'r Gymraeg, ac y byddai trefniant lle'r oedd cyllid i gael ei ddefnyddio i ddibenion cyhoeddi yn unig, yn cael effaith negyddol ar ymchwil yn Gymraeg. Teimlai'r un ymatebwr fod GPC hefyd yn rhy draddodiadol yn ei* |

| |
|---|
| *hymagwedd at gyhoeddi, ac nad oedd y cynnig hwn yn rhoi ystyriaeth i allbynnau ymchwil eraill, fel manga a ffilm, sy'n gymwys ar gyfer REF.*<br><br>*Awgrymodd un ymatebwr y gallai CCAUC ystyried ffrydiau ariannu eraill er mwyn helpu i hyrwyddo ymchwil Astudiaethau Cymru, o bosib drwy Gymdeithas Ddysgedig Cymru.*<br><br>*Roedd sefydliad nad yw ar hyn o bryd yn derbyn unrhyw gyllid ar gyfer cyhoeddiadau Astudiaethau Cymru yn croesawu'r cyfle i wneud cais am y cyllid hwn, gan awgrymu y byddai'n fodlon defnyddio adnoddau mewnol i dalu unrhyw gostau ychwanegol.* |
| *Ymateb CCAUC:*<br><br>*Rydym yn cydnabod y byddai asesiad ymchwil cenedlaethol yn cydnabod mathau eraill o allbwn, ond cyhoeddiadau sydd i gyfrif am y rhan helaethaf o allbwn ymchwil yn y maes. Nid yw allbwn ymchwil annhraddodiadol, fel y rhai y cyfeirir atynt yn yr ymateb a nodwyd uchod, yn cynrychioli conglfaen allbwn ymchwil Astudiaethau Cymru, ac oherwydd prinder y cyllid sydd ar gael, rydym yn cynnig y dylid parhau â'r ffocws ar gyhoeddiadau academaidd. Byddai unrhyw arian a fyddai'n cael ei glustnodi, er enghraifft ar gyfer digwyddiadau, yn rhy fach i fod yn ystyrlon a byddai'n feichus i'w reoli. Nodwn* fod amryw o ymatebwyr wedi dweud bod ffrydiau cyllido eraill dilys y gellid eu defnyddio ar gyfer cynadleddau ac ati. (fel cronfeydd mewnol SAUau).*Mae cyfuno Astudiaethau Cymru ac ymchwil cyfrwng Cymraeg yn gamddealltwriaeth anffodus yn yr achos hwn; o'r cychwyn cyntaf mae'r cyllid hwn wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer ymchwil Astudiaethau Cymru yn Gymraeg ac yn Saesneg, fel y trafodwyd uchod.* |

| **C6. A oes modelau amgen y gellid eu hystyried?** |
|---|
| *Awgrymwyd yr opsiynau amgen canlynol:*<br><br>*1. Cadw'r trefniant presennol lle mae'r cyllid yn cael ei drosglwyddo i'r Prifysgolion.*<br>*2. Bod Cyngor Llyfrau Cymru yn gweinyddu'r gronfa.*<br>*3. Bod corff fel Cymdeithas Ddysgedig Cymru yn gweinyddu'r gronfa.*<br>*4. Bod y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gweinyddu'r gronfa.*<br>*5. Bod y cyllid yn cael ei ddosbarthu i weisg eraill ar sail canran, ar sail nifer y Cyhoeddiadau Astudiaethau Cymru a gyhoeddwyd dros gyfnod penodol.*<br><br>*Awgrymwyd hefyd y dylai CCAUC ystyried model yr Alban er mwyn creu Gwasg Mynediad Agored.*<br><br>*O blith y rhain, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn ffafrio cynnig CCAUC.* |

*Ymateb CCAUC:*

*Byddai'r posibilrwydd i Gyngor Llyfrau Cymru ddarparu'r gronfa yn golygu newid sylweddol o ran seilwaith, ac yn creu biwrocratiaeth ddiangen ar gyfer y cyllid hwn. Dylid nodi hefyd, er i ymatebwyr gyfeirio ato, na chafwyd ymateb gan Gyngor Llyfrau Cymru i'r ymgynghoriad hwn yn dweud y byddent yn fodlon gweinyddu'r gronfa.*

*Dyrannu'r gronfa i un cyhoeddwr presennol sy'n arbenigo mewn Astudiaethau Cymru yw'r ffordd fwyaf dibynadwy o sicrhau bod ymchwilwyr yn parhau i allu manteisio arni heb unrhyw darfu diangen. Byddai dyrannu i amryw o gyhoeddwyr yn fiwrocrataidd, ac yn creu heriau o ran monitro ansawdd y cyhoeddiadau a gefnogir o'r gronfa.*

*Cytunwn fod angen i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol gymryd rhan yn y broses er mwyn helpu i sicrhau nad yw cynigion am gyhoeddiadau yn Gymraeg yn cael eu hystyried yn llai ffafriol na chynigion Saesneg, ac rydym eisoes wedi cael trafodaeth â'r Coleg ynghylch cael rôl ar y Panel. Bydd Cymdeithas Ddysgedig Cymru hefyd yn aelod o'r panel, ac yn cael gwahoddiad i'w gadeirio fel cynrychiolydd annibynnol cymuned ymchwil Cymru.*

*Fodd bynnag, bydd CCAUC yn adolygu'r trefniant newydd i weld sut mae'n gweithio'n ymarferol, ac yn addasu'r trefniadau cyllido fel bo'r angen.*

**C7. Nid yw lefel y cyllid wedi newid ers 2011. Beth ddylai CCAUC ei ystyried wrth bennu lefelau cyllido yn y dyfodol?**

*Nododd bron pob un o’r ymatebwyr fod lefel y cyllid yn broblem, ac awgrymwyd y dylid cynyddu’r cyllid i gefnogi twf yn y maes hwn. Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr hefyd y byddai angen ystyried gofynion Mynediad Agored, a nodwyd bod straen yn aml ar gyllid ar gyfer ymchwil ym maes y celfyddydau a'r dyniaethau. Nodwyd bod angen gwerthfawrogi pwysigrwydd astudiaethau diwylliannol Cymreig i’r genedl mewn amgylchedd sy’n cael ei yrru’n gynyddol gan y farchnad.*

*Ymhlith y ffactorau eraill a godwyd y dylai CCAUC eu hystyried oedd y cynnydd mewn costau cyhoeddi ers 2011, datblygiadau yn y diwydiant cyhoeddi a maint y farchnad. Anogwyd CCAUC hefyd i ystyried buddsoddi mwy ym Mynediad Agored Aur.*

*Roedd gofynion Mynediad Agored yn bryder a oedd yn codi dro ar ôl tro ymhlith yr ymatebwyr yn y cwestiwn penodol hwn, gyda'r ymatebwyr yn nodi'r angen i gefnogi gofynion Mynediad Agored Aur. Nododd yr Ymatebwyr hefyd y cynnydd mewn costau cyhoeddi ers 2011, a'r prinder cyllid cyffredinol ar gyfer y celfyddydau a'r dyniaethau, yn ogystal â'r angen i gefnogi cyhoeddiadau yn Gymraeg.*

**Atodiad A**

*Ymateb CCAUC:*

*Rydym yn cydnabod y rhwystredigaethau'n gysylltiedig â'r ffaith nad yw'r ffigur wedi newid ers 2011, ac yn gwerthfawrogi bod costau cyhoeddi wedi cynyddu ers hynny. Rydym hefyd yn cydnabod bod agen alinio Astudiaethau Cymru â datblygiadau y maes Mynediad Agored. Rydym hefyd yn ymwybodol o'r straen ar gyllid ar gyfer y celfyddydau a'r dyniaethau yn fwy cyffredinol. Rydym yn cynnig y dylid cadw lefel y cyllid yr un peth i ddechrau, ond byddwn yn adolygu'r defnydd o'r gronfa er mwyn cael dealltwriaeth well o'r galw, a byddwn yn gweithio gyda GPC i sicrhau gwelliant o ran nifer y cyhoeddiadau sy'n cynnig Mynediad Agored.*

**C8. Rhowch unrhyw sylwadau ychwanegol na ellir eu cynnwys yn rhwydd yn y cwestiynau uchod, gan gynnwys unrhyw ganlyniadau anfwriadol a allai godi yn sgil y dull hwn.**

*Codwyd ystod eang o faterion yn yr adran hon, ond dyma'r materion a oedd yn codi droeon:*

- *Nododd yr ymatebwyr ei bod hi'n bwysig diffinio cwmpas Astudiaethau Cymru, ac awgrymwyd y dylai CCAUC fabwysiadu'r diffiniad a ddefnyddir gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru ar gyfer Astudiaethau Cymru.*
- *Gofynnwyd a oedd angen cael paneli ar wahân, y naill a'r gyfer cyhoeddiadau Cymraeg a'r llall ar gyfer Saesneg, neu a fyddai un panel ddwyieithog yn ddigonol.*
- *Er bod teimlad y dylid cefnogi GPC, mynegwyd pryderon ynghylch y diffyg cefnogaeth ar gyfer cyhoeddwyr eraill yng Nghymru sy'n cefnogi gwaith academaidd ac allbwn sy'n gymwys ar gyfer yr REF. Teimlwyd hefyd fod y dull hwn yn rhoi mantais annheg i fonograffau ar draul mathau eraill o allbwn.*
- *Teimlwyd y byddai diffyg cefnogaeth ar gyfer ymchwil cyfrwng Cymraeg.*
- *Roedd angen eglurder ynghylch cynnwys cyfnodolion ac erthyglau mewn cyfnodolion.*
- *Roedd angen sicrwydd tymor hir o ran cyllid.*
- *Awgrymwyd y dylid adolygu'r broses gyllido bob 3-5 mlynedd.*
- *Awgrymwyd y dylai GPC ymwneud â'r gwaith o osod meini prawf a gweithdrefnau eraill (ee, yr angen nam broses apelio).*
- *Y potensial i fwydo canlyniadau'r REF i'r broses hon.*
- *Effaith niweidiol bosibl ar ymchwil yn Gymraeg.*

**Atodiad A**

- *Agenda Mynediad Agored/Gwyddoniaeth Agored*
- *Wrth roi'r ffocws ar GPC, ystyriwyd bod cyfle wedi'i golli i drafod ffyrdd gwell o gefnogi Astudiaethau Cymru mewn tirlun newidiol.*
- *Byddai'n dda ei gwneud hi'n ofynnol i GPC ganiatáu mynediad agored Gwyrdd, o leiaf, drwy ystorfeydd SAUau, gyda chyfnodau embargo priodol a rhesymol, a thrwyddedau sy'n caniatáu ailddefnyddio.*
- *Dylai'r gronfa hefyd gefnogi cyhoeddiadau yn Gymraeg nad ydynt o reidrwydd yn trafod Cymru.*
- *Dylai CCAUC gefnogi mandadau mynediad agored a gweithio gyda Gwasg Prifysgol Cymru i ddatblygu seilwaith a all sicrhau trefniadau cyhoeddi mynediad agored ar gyfer erthyglau a monograffau. Ceir modelau cyhoeddi mynediad agored llwyddiannus yng Nghymru (Gwasg Prifysgol Caerdydd). Mae ymagweddau cydweithredol hefyd yn dod i'r amlwg yn gysylltiedig â hyn - er enghraifft, mae prifysgolion yn yr Alban wedi lansio gwasg mynediad agored gydweithredol.*
- *Roedd pryderon bod costau cyhoeddi GPC yn uchel. Awgrymwyd y dylai CCAUC ystyried gwerth am arian mewn unrhyw adolygiad o'r dull arfaethedig yn y dyfodol.*
- *Nodwyd y byddai angen diffinio a gweithredu'r seilwaith ar gyfer rheoli'r gronfa, penodi'r panel a'r prosesau cysylltiedig.*
- *Manteisiodd eraill ar y cyfle i groesawu'r newid gan deimlo mai dyma fyddai'r ffordd decaf a mwyaf tryloyw o reoli'r cyllid.*

*Ymateb CCAUC:*

*Rydym yn gwerthfawrogi'r ystod o faterion a phryderon a godwyd gan yr holl ymatebwyr, ac er ein bod wedi ceisio mynd i'r afael â chynifer ohonynt ag sy'n bosibl yn ein hymateb addasedig, ni allwn gyflawni'r holl nodau o fewn lefel gyfredol y cyllid. Er ein bod yn cydnabod y pryderon ynghylch cyhoeddi ymchwil yn Gymraeg mewn meysydd eraill, hoffem ailbwysleisio mai pwrpas y gronfa hon yw cyhoeddi ymchwil Astudiaethau Cymru yn Gymraeg ac yn Saesneg ac ni fwriedir iddi fod yn gronfa ymchwil cyfrwng Cymraeg. Byddwn yn sicrhau bod y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cael lle ar y panel ochr yn ochr â Chymdeithas Ddysgedig Cymru a Sefydliadau Addysg Uwch Cymru i sicrhau llais cryf ar gyfer allbwn Cymraeg.*

*Rydym yn cydnabod bod angen bod yn ymwybodol o'r newid cynyddol tuag at gyhoeddiadau Mynediad Agored, ac wedi cael ein sicrhau gan GPC y gall gyflawni yn y maes hwn. Byddwn yn monitro'r sefyllfa drwy adroddiadau blynyddol a thrwy ymgysylltu'n agos â'r Wasg a'r panel annibynnol i fonitro'r galw am y cyllid hwn ac*

| |
|---|
| *effeithlonrwydd y model. Rydym yn agored i adolygu ac addasu'r trefniant fel bo'r angen.*<br><br>*Rydym yn gwerthfawrogi'r cyfle i ddiffinio Astudiaethau Cymru yn well, ac i gydnabod y gallai ein diffiniad blaenorol o gyhoeddiadau'n gysylltiedig â 'hanes, llenyddiaeth a diwylliant Cymru' fod wedi cael ei ystyried yn rhy gaeth. Rydym felly'n bwriadu mabwysiadu'r diffiniad o Astudiaethau Cymru a awgrymwyd gan Gymdeithas Ddysgedig Cymru, ac yn hyderu y gellir ystyried hyn yn gam ymlaen ar gyfer datblygu ymchwil Astudiaethau Cymru.*<br><br>*Byddwn yn cyhoeddi meini prawf cymhwysedd ac yn cynorthwyo i sefydlu'r panel a'i weithdrefnau ar gyfer asesu ceisiadau.* |

| **i. Pa effeithiau cadarnhaol neu negyddol fydd y cynigion yn eu cael ar y canlynol:**<br>• cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg<br>• peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg? | **ii. Sut y gellid newid y cynigion i gynyddu'r effeithiau cadarnhaol neu i leihau'r effeithiau niweidiol ar y canlynol:**<br>• cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg<br>• peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg? |
|---|---|
| *Er bod llawer o ymatebwyr yn teimlo y byddai'r dull hwn yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg, codwyd pryderon y byddai'r polisi hwn yn cael effaith niweidiol mewn meysydd ymchwil na fyddent yn derbyn cymorth o fewn cwmpas y gronfa hon. Nododd ymatebwyr fod angen rhagor o gymorth ar gyfer allbwn cyfrwng Cymraeg, mewn ymgynghoriad â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.*<br><br>*Er hynny, nododd eraill y byddai'r polisi yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg drwy sicrhau mai cyhoeddwr dwyieithog sy'n trin y Gymraeg a Saesneg yn gyfartal, a chanddo nifer o staff Cymraeg eu hiaith sy'n deall y cyd-destun Cymraeg, a fyddai'n derbyn y cyllid.*<br><br>*Roedd gwelliannau posibl i'r polisi yn cynnwys neilltuo canran o'r cyllid ar gyfer allbwn cyfrwng Cymraeg ac ehangu cwmpas y cyllid i gynnwys mathau eraill o allbwn.*<br><br>*Nodwyd y dylid cynnal asesiad effaith a'i adolygu ar sail gylchol.*<br><br>*Nododd yr ymatebwyr fod angen egluro sut y byddai awduron Cymraeg yn cael eu hannog i fanteisio ar y gronfa, a sut y byddai'r panel yn rhoi ystyriaeth i gyhoeddiadau Cymraeg.* | |
| *Ymateb CCAUC:* | |

**Atodiad A**

| |
|---|
| *Rydym yn falch bod ymatebwyr wedi nodi'r effeithiau cadarnhaol y bydd y cyllid hwn yn eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg; credwn y bydd y cyllid hwn, sydd ar gyfer cyhoeddiadau Cymraeg a Saesneg, yn parhau i gefnogi ymchwil i Astudiaethau Cymru yn y ddwy iaith.*<br><br>*Mae CCAUC wedi cynnal asesiad effaith a bydd yn adolygu'r asesiad hwnnw'n rheolaidd.* |

| **A yw'r cynigion ar gyfer y gronfa yn cael unrhyw effaith gadarnhaol neu negyddol, neu'n creu canlyniadau anfwriadol, o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth a saith nod llesiant, Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)?** |
|---|
| *Nododd yr ymatebwyr effaith gadarnhaol y cyllid, nid yn unig ar lesiant cymdeithasol, ond hefyd drwy agor y cyllid i ymchwilwyr a oedd gynt wedi'u heithrio o'r gronfa, ac y byddai'r polisi'n cyfrannu at y nod o greu Cymru sy'n fwy cyfartal. Y mae hefyd yn cefnogi'r nod o greu 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Nodwyd hefyd fod datblygu Mynediad Agored hefyd yn cael effaith ddemocrateiddio, drwy wneud ymchwil yn fwy hygyrch.*<br><br>*Fodd bynnag, nodwyd y gallai'r polisi, fel yr oedd yn cael ei gynnig, gael effaith negyddol heb roi cefnogaeth ehangach ar waith ar gyfer cyhoeddiadau cyfrwng Cymraeg. Nodwyd y dylid cynnal ac adolygu asesiad effaith o hyn.* |
| *Ymateb CCAUC:*<br><br>*Roeddem yn falch bod ymatebwyr yn teimlo y byddai hyn yn creu effeithiau cadarnhaol yng nghyswllt y nodau a'r ffyrdd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), yn enwedig drwy wella mynediad at y cyllid sydd ar gael a chyfrannu at ddiwylliannau Cymru yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae CCAUC wedi cynnal asesiad effaith a bydd yn adolygu'r asesiad hwnnw'n rheolaidd.* |